Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

**Cyfarfod:** **Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu**
**Lleoliad:** **Pencadlys yr Heddlu**
**Dyddiad:** **13 Gorffennaf 2015**
**Amser:** **1-3.15y.h.**

Heddlu•Police DYFED-POWYS
Diogelu ein Cymuned – Safeguarding our Community

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Christopher Salmon, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Prif Gwnstabl Simon Prince (PG)<br>Mr Tim Burton, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu (DGHTh)<br>Prif Gwnstabl Cynorthwyol Liane James (PGC)<br>Ms Samantha Gainard, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Chydymffurfio (CGC)<br>Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)<br>Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol (PSA) |
| **Hefyd yn bresennol:** | Arolygydd Christina Fraser, Swyddog Staff i'r Prif Gwnstabl (CF)<br>Dr Helen Morgan-Howard, Pennaeth Staff, SCHTh (HM-H)<br>Mrs Sharon Richards, Rheolwr Perfformiad, SCHTh (SR)<br>Mrs Siân Jenkins, Rheolwr Swyddfa, SCHTh (SJ) |
| **Yn arsylwi:** | Prif Arolygydd Dros Dro Adam Hayes (wedi'i secondio i'r Swyddfa Gartref) (AH)<br>Miss Kirsty Morgan, Ymgynghorydd Cysylltiadau Cwsmer (KM ) |
| **Ymddiheuriadau:** | Dirprwy Brif Gwnstabl, Carl Langley (DBG) |

| CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 19/06/2015 | | |
|---|---|---|
| Rhif Cam Gweithredu | Crynodeb | Cynnydd: |
| **PAB 225** | **Yr Heddlu i rannu dadansoddiad o amserau mechnïaeth â SCHTh.** | **Cyfredol** |
| **PAB 226** | **Yr Heddlu i ddarparu data ar yr amser rhwng troseddau traffig yn digwydd a llythyrau'n cael eu hanfon/achosion yn cael eu rhestri gerbron llys.** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 227** | **Yr heddlu i roi gwybodaeth ar sancsiynau a ddefnyddir ar gyfer datrysiadau cymunedol a nodwyd (i'r BAH a'r panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys graffu arnynt yn y dyfodol).** | **Cyfredol** |
| **PAB 228** | **Yr Heddlu i ddarparu'r rheswm dros leihau'r** | **Cwblhawyd** |

| | | |
|---|---|---|
| | **maint carfan ar gyfer y cynllun Trawsnewid IOM.** | |
| **PAB 229** | **Yr Heddlu i rannu 'proffil problemus' mewn perthynas â Cham-drin Domestig â SCHTh.** | **Ar waith – cychwyn mis Medi** |
| **PAB 230** | **SR a KT i ddadansoddi deilliannau ar gyfer troseddau Trefn Gyhoeddus.** | **Ar waith – BAH mis Awst** |
| **PAB 231** | **Yr Heddlu i ddarparu asesiad o enillion ar y buddsoddiad yn y prosiect plismona digidol ar gyfer BAH mis Ionawr, a SCHTh i ddarparu cwestiynau mewn perthynas â'r asesiad hwnnw ymlaen llaw.** | **Parhaus – BAH Ionawr 2016** |
| **PAB 232** | **Adolygiad gweithredu Y Cyhoedd yn Gyntaf i'w adrodd yn ôl i'r BAH/BP.** | **Ar waith - Awst** |
| **PAB 233** | **Yr Heddlu i gynnal gwerthusiad o'r defnydd o TCC ac asesu pa un ai a ddylid parhau i'w ariannu mewn 12 mis.** | **Cyfredol** |
| **PAB 234** | **Yr Heddlu i ddarparu data Rheoli Perfformiad y Tîm Erlyn (RhPTE) dros y tri mis diwethaf i SCHTh a'i ychwanegu i adroddiadau yn y dyfodol ar RhPTE.** | **Ar waith** |
| **PAB 235** | **Yr Heddlu i adrodd tor parhad achosion o dan Trawsnewid Cyfiawnder Diannod (TCD) i gyfarfod o'r BP/BAH.** | **Cyfredol** |

| PENDERFYNIAD O GYFARFOD 13/07/2015 | | |
|---|---|---|
| Rhif Penderfyniad | Crynodeb | I'w symud yn ei flaen gan |
| **PAB 001** | **Cytunodd Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu i'r meini prawf pwyso a gwerthuso o'r tendr ar gyfer darparu telemateg a lleoli.** | **CC** |

Croesawodd y CHTh y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Liane James i'w chyfarfod cyntaf o Fwrdd Atebolrwydd yr Heddlu fel PGC. Hefyd, croesawodd y CHTh y Prif Arolygydd Dros Dro Adam Hayes (aelod o dîm adolygu'r Swyddfa Gartref ar Reoli Perfformiad) a Kirsty Morgan (Ymgynghorydd Cysylltiadau Cwsmer, SCHTh) fel arsylwyr.

**Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Atebolrwydd a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2015 a Materion yn Codi**

Cytunwyd bod cofnodion diwethaf Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu'n gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod gyda rhai diwygiadau'n cael eu gwneud i'r cynnwys. Cytunwyd y dylid cynnwys rhai camau gweithredu pellach.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i ddarparu data Rheoli Perfformiad y Tîm Erlyn ar gyfer y tri mis diwethaf i SCHTh a'i ychwanegu i adroddiadau ar Reoli Perfformiad y Tîm Erlyn yn y dyfodol.**

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i adrodd tor parhad achosion o dan Trawsnewid Cyfiawnder Diannod (TCD) i BP/BAH.**

**Adroddiad Atebolrwydd yr Heddlu ar Flaenoriaeth 6**

Cyflwynodd y CC drosolwg o Adroddiad Atebolrwydd yr Heddlu ar Flaenoriaeth 6 – Gwario'n Ddoeth. Roedd y prif themâu a'r diweddariadau ers y diweddariad diwethaf fis Ionawr yn cynnwys y sefyllfa gyllideb a 'O'r Stryd i'r Ddalfa'.

Cododd y CHTh a'r PSA nifer o gwestiynau ar gyfer yr Heddlu, yn seiliedig ar y wybodaeth yn yr adroddiad.

Gofynnodd y PSA pa un ai a oedd y gyllideb a osodwyd ar gyfer gwariant cyfalaf ar blismona digidol a phrosiectau eraill dal o fewn y gyllideb, ychydig fisoedd i mewn i'r flwyddyn ariannol. Nododd y CC y bydd rhai o'r prosiectau sydd wedi'u cynllunio'n dibynnu ar fframweithiau cenedlaethol sy'n dod i rym ond roedd y gyllideb gyffredinol dal yn realistig. Esboniodd y CC y bydd rhai penderfyniadau allweddol yn cael eu gwneud yn ystod y flwyddyn a fydd yn pennu pa un ai a fydd rhai prosiectau'n digwydd ai peidio. Roedd prosiectau mawr o fewn TGaCh sydd angen penderfyniadau ond maen nhw'n ddibynnol ar ymarferion caffael ac amseru'r prosiect.

Gofynnodd y PSA i'r Heddlu ddarparu mwy o fanylion ar arbedion refeniw ar gyfer 2016/17 o fewn y meysydd arfau saethu, yr adran gŵn, cydweithio a chaffael mewn BAH yn y dyfodol i ddeall beth sy'n digwydd yn y meysydd busnes hynny a sut y gallant newid wrth fynd ymlaen.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i ystyried arbedion refeniw penodol yn y canlynol fel rhan o gynllunio ar gyfer 2016/17 i'w gyflwyno yn y BP ar 23 Medi – arfau saethu; yr adran gŵn; cydweithio; caffael.**

Cafwyd trafodaeth ar y gwasanaeth 'O'r Stryd i'r Ddalfa' a phennu staff G4S fel Swyddogion Tywys a'r Ddalfa.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i ymgymryd â dadansoddiad o wybodaeth rheoli 'O'r Stryd i'r Ddalfa', yn benodol: Pam fod G4S yn cymryd llai o amser na swyddogion i gludo carcharorion; Beth yw'r manteision cost o ran defnydd ehangach o 'O'r Stryd i'r Ddalfa'.**

Diolchodd y CHTh y CC am ei gyflwyniad.

**Adroddiad Atebolrwydd SCHTh ar Flaenoriaeth 6**

Cyflwynwyd Adroddiad Atebolrwydd SCHTh ar gyfer ei nodi ac roedd yn cynnwys diweddariadau ar flaenoriaethu gwariant ar wasanaethau rheng flaen, craffu ar broffiliau gwerth am arian ac adolygiad o wariant cyfredol.

**Adroddiad Monitro Perfformiad SCHTh**

Cyflwynodd SR adroddiad perfformiad SCHTh i'r Bwrdd a oedd yn cynnwys ffigurau hyd at fis Mehefin 2015. Nododd SR bod yr adroddiad y mis hwn yn canolbwyntio ar y cynnydd yn nifer y troseddau; canlyniadau o ran troseddau mwy difrifol; a gwella mynediad i wasanaethau'r heddlu. Roedd yr adran Gwario'n Ddoeth yn canolbwyntio ar brosesu anfonebau a materion dyledion a godwyd yn flaenorol. Roedd SR wedi paratoi cwestiynau cyn y cyfarfod a oedd wedi'u dosbarthu i'r Heddlu. Yn y cyfarfod, atebodd yr Heddlu'r cwestiynau hynny ac mae'r Adroddiad Perfformiad wedi'i ddiweddaru ag ymatebion yr Heddlu (yn amgaeedig gyda'r Cofnodion).

Gofynnodd y CHTh i'r PG ddarparu data ar nifer y troseddau rhyw a ddigwyddodd dros 6 mis cyn cofnodi a chymharu hyn â'r un cyfnod y llynedd.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i asesu pa gyfran o achosion troseddau rhyw sy'n hanesyddol, a sut mae hyn yn cymharu â data a riportiwyd i'r BAH yng Ngorffennaf 2014.**

Cadarnhaodd y PG bod y grŵp Gorffen a Thasgio Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant wedi'i sefydlu a bod strategaeth ranbarthol wedi'i chytuno. Gofynnodd y CHTh i'r Heddlu roi

Strategaeth Cam-fanteisio’n Rhywiol ar Blant ranbarthol iddo, Cynllun Gweithredu ac amserlenni.

**Cam gweithredu: Yr heddlu i roi copi i’r CHTh o’r Strategaeth Cam-fanteisio’n Rhywiol ar Blant ranbarthol, Cynllun Gweithredu ac amserlenni.**

Mewn perthynas ag achosion a symudwyd yn eu blaenau i erlyniad lle nad yw’r dioddefydd yn cefnogi neu’n tynnu cefnogaeth yn ôl ar gyfer gweithredu gan yr heddlu, gofynnodd y CHTh am fwy o wybodaeth er mwyn sefydlu sut all yr Heddlu wella cymorth ar gyfer dioddefwyr fel eu bod nhw’n parhau’n rhan o’r broses erlyn. Bydd y PG yn cynnal ymarfer meincnodi er mwyn nodi nifer yr achosion y symudwyd yn eu blaenau heb gefnogaeth y dioddefwyr a dadansoddiad o’r rhesymau pam y mae dioddefwyr yn tynnu cefnogaeth yn ôl.

**Cam gweithredu: Yr heddlu i nodi nifer yr achosion y symudwyd yn eu blaenau heb gefnogaeth dioddefwyr, a dadansoddi rhesymau’r dioddefwyr dros dynnu eu cefnogaeth yn ôl.**

Gofynnodd y CHTh i’r PG ymgymryd ag ymarfer i feincnodi perfformiad Dyfed-Powys yn erbyn heddluoedd tebyg o ran yr amser a gymerir i weithredu canlyniadau i droseddau rhyw.

**Cam gweithredu: Yr Heddlu i feincnodi perfformiad Dyfed-Powys yn erbyn heddluoedd tebyg o ran yr amser a gymerir i weithredu canlyniadau i droseddau rhyw.**

Cododd y CHTh bryderon am berfformiad o ran trin galwadau ac amserau ymateb yng Nghanolfan Gyfathrebu’r Heddlu (CGH). Gofynnodd y CHTh am gael derbyn adroddiadau wythnosol sy’n cynnwys crynodeb dyddiol o nifer y galwadau a gymerir gan CGH, yr amser a gymerir ar gyfartaledd i ateb galwadau a chyfran y galwadau ymateb syth a fynychwyd o fewn 20 munud.

**Cam gweithredu: Y CHTh i dderbyn adroddiadau wythnosol â chrynodebau dyddiol o:- Nifer y galwadau a gymerir gan CGH; yr amser a gymerir ar gyfartaledd i ateb galwadau; cyfran y galwadau ymateb syth a fynychir o fewn 20 munud.**

Mewn perthynas â'r cwestiwn ar yr hyn sy'n achosi oedi o ran darparu gwysion llys i droseddwyr traffig y ffyrdd, mae'r CHTh wedi gofyn i'r PG ddarparu adroddiad i BAH mis Hydref ar nifer y misoedd a gymerir i ddarparu troseddwyr traffig y ffyrdd â gwysion llys.

**Cam gweithredu: Yr heddlu i adrodd i BAH mis Hydref ar nifer y misoedd a gymerir i ddarparu troseddwyr traffig y ffyrdd â gwysion llys.**

Gofynnodd y PSA nifer o gwestiynau mewn perthynas â dyledwyr a symud anfonebau ymlaen.

Roedd y PSA wedi codi pryderon yn flaenorol am y rhaglen waith Gwella Parhaus (GP) ar wella prosesu anfonebau a nododd nad oedd cynllun wedi'i gofnodi lle y mae amcanion ac amserlenni wedi'u priodoli. Gofynnodd y PSA pa un ai a ellir sicrhau'r Heddlu bod adnoddau'n cael eu lleoli'n effeithiol i'r maes blaenoriaeth heb gynllun o'r fath.

Esboniodd y PG nad oedd Gwella Parhaus yn brosiect a oedd wedi'i ddogfennu ond roedd y CA wedi gofyn i staff gyflwyno gwelliannau penodedig i brosesau. Mae staff yn gweithio ar y gwelliannau hynny ar hyn o bryd er mwyn gwneud y newidiadau hynny. Nododd y PG fod y gwahoddiad a roddwyd mewn Bwrdd Plismona blaenorol i reolwyr SCHTh fynychu un o ddigwyddiadau hyfforddi Gwella Parhaus yr Heddlu ar gyfer Uwch Reolwyr yn gyfle i rannu gwybodaeth a chael gwell ymwybyddiaeth o'r rhaglen.

Nododd y PSA mai'r lefel dyled dros 120 diwrnod oed ar hyn o bryd yw £358,000 a bod tua £212,000 dros flwydd oed. Gofynnodd y PSA beth sy'n cael ei wneud er mwyn mynd i'r afael â hyn. Esboniodd y PG fod peth o'r ddyled yn hanesyddol ac mae rhai dyledion wedi'u talu ond heb eu canslo ar y system oherwydd camgymeriad gweinyddol. Hysbysodd y PG y Bwrdd mai'r lefel dyled dros 120 diwrnod oed ar hyn o bryd yw £90,000. Ychwanegodd y CA bod y £90,000 yn cynnwys rhai cynlluniau ad-dalu.

O'r £358,000 o ddyled sydd dros 120 diwrnod oed, mae dros £175,000 yn ymwneud â chwmnïoedd telegyfathrebu. Gofynnodd y PSA pa un ai a oedd mater o ran y cwmnïoedd hynny'n methu â thalu am eu lle ar fastiau Dyfed-Powys. Esboniodd y PG fod yr Heddlu wedi nodi'r mater ac yn ymwybodol bod rhai o'r cwmnïoedd ond yn gwneud y taliad lleiaf a nodir ar anfonebau. Mae'r Heddlu mewn cysylltiad â'r cwmnïoedd hyn i drefnu gwell trefniadau talu. Holodd y CHTh pa gytundebau prydles a/neu delerau talu oedd mewn grym.

Gofynnodd y PSA am ragor o fanylion ar y rhan o'r ddyled sydd eisoes wedi'i derbyn ond sydd heb ei gysoni â'r ddyled wreiddiol eto. Esboniodd y PG y bu rhai materion gweinyddol lle nad yw peth o'r incwm a dderbyniwyd wedi'i gyfateb yn erbyn y ddyled. Mae hyn wedi arwain at yr heddlu'n dilyn peth dyled sydd eisoes wedi'i thalu a gwŷs llys yn cael ei chyhoeddi ar gyfer y ddyled honno. Dywedodd y PG fod y broses ar gyfer cyhoeddi gwŷs wedi newid er mwyn sicrhau na fydd yn digwydd eto heb yn wybod i uwch reolwyr.

Cafwyd trafodaeth ar yr anawsterau y mae'r PSA wedi profi o ran cael gafael ar wybodaeth a data rheoli a sut mae hynny'n ei gwneud hi'n anodd gwybod beth sy'n digwydd yn y gwahanol feysydd o fewn yr Uned Cymorth Busnes. Cytunwyd y bydd y PSA yn cwrdd â Chyfarwyddwyr yr Heddlu i gytuno ar rannu gwybodaeth rheoli er mwyn cefnogi gwell craffu ar brosesau rheoli.

**Cam gweithredu: Cyfarwyddwyr yr Heddlu i drafod gwybodaeth rheoli sydd angen ar gyfer craffu.**

**Adroddiadau Diweddaru**

***Diweddariad ar y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaethol (MASH)***

Diweddarodd y PG y Bwrdd ynghylch MASH a nododd fod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo'n llawn iddo ond mae trafodaethau'n parhau rhwng y PG ac awdurdodau lleol eraill. Mae Bwrdd CYSUR wedi cyfarfod, ac fel y soniwyd yn gynharach yn y cyfarfod, bydd yr Heddlu'n rhoi copi o'r strategaeth ranbarthol ar gyfer Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant. Mae'r Ditectif uwch-arolygydd John yn datblygu MASH i gychwyn â Chyngor Sir Caerfyrddin. Mae lleoliad MASH dal yn cael ei drafod.

***Diweddariad CISCO***

Crynhodd y PG ddiweddariad CISCO mewn perthynas â diweddariad adrodd a theleffoni o fewn Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu (CGH). Cafwyd trafodaeth ar y sefyllfa gyfredol, cyfyngiadau'r generadur adroddiad safonol a'r opsiwn ar gyfer gwario £30,000 yn gweithredu datrysiad adrodd uwch. Esboniodd y PG bod CISCO ar fin gwneud newidiadau i'w system tuag ar ddiwedd y flwyddyn a gallai'r rhain gynnwys diweddariad a fydd yn darparu gwell model casglu data. Nid yw manylion y diweddariad yn hysbys ar hyn o bryd, a dyna pam does dim penderfyniad wedi'i wneud eto ar wario'r 330,000. Mynegodd y CHTh ei bryderon bod yr Heddlu yn yr un sefyllfa ag oedden nhw 12 mis yn ôl, gan fod

y penderfyniad ynghylch pa un ai a i wario £30,000 ar ddiweddariad neu aros am ddiweddariad CISCO 18 mis yn ddiweddarach hefyd wedi'i drafod bryd hynny.

Cafwyd trafodaeth am bryderon y CHTh dros brosesau rheoli o fewn y ganolfan alwadau. Dywedodd y CHTh bod yr un materion yn bresennol heddiw ag oedd yn bresennol ddwy flynedd yn ôl, pan gychwynnodd trafodaethau ar y ganolfan alwadau. Dywedodd y CHTh y bydd yn ystyried dod ag ymgynghorwyr allanol i mewn i adolygu CGH a gwneud argymhellion ar gyfer y gwelliannau sydd angen er mwyn galluogi'r ganolfan i gyflenwi'n effeithiol.

Cafwyd trafodaeth am Gronfa Arloesedd yr Heddlu a'r meini prawf ar gyfer cymhwyso ar gyfer yr arian.

***Cwestiynau o gofnodion y Grŵp Prif Swyddogion***

Nid oedd y cofnodion o GPS mis Gorffennaf ar gael cyn y cyfarfod.

**Unrhyw Fusnes Arall**

***Meinir Prawf Pwyso a Chymhwyso ar gyfer Datrysiad Lleoli a Thelematig Cerbydau***

Nododd y CC, yn unol â'r ddogfen Llywodraethu Corfforaethol , bod angen adrodd y pwysiadau a'r meini prawf gwerthuso ar gyfer tendrau dros £250,000 i'r Bwrdd Plismona. Oherwydd yr amserlen, dygodd y CC y tendr ar gyfer darparu datrysiad lleoli a thelemateg sydd â chyllideb o £375,000 dros 3 blynedd i sylw Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu heddiw. Cytunodd y Bwrdd i'r meini prawf gwerthuso a phwyso o'r tendr.

**Penderfyniad: Cytunodd Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu i'r meini prawf pwyso a gwerthuso o'r tendr ar gyfer darparu telemateg a lleoli.**

Doedd dim busnes arall.

**Camau Gweithredu:**

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 13/07/2015 | | |
|---|---|---|
| Rhif Cam Gweithredu | Crynodeb | I'w symud yn ei flaen gan: |

| | | |
|---|---|---|
| **PAB 236** | **Yr Heddlu i ystyried arbedion refeniw penodol yn y canlynol fel rhan o gynllunio ar gyfer 2016/17 i'w gyflwyno yn y BP ar 23 Medi – arfau saethu; yr adran gŵn; cydweithio; caffael.** | **Yr Heddlu** |
| **PAB 237** | **Yr Heddlu i ymgymryd â dadansoddiad o wybodaeth rheoli 'O'r Stryd i'r Ddalfa', yn benodol: Pam fod G4S yn cymryd llai o amser na swyddogion i gludo carcharorion; Beth yw'r manteision cost o ran defnydd ehangach o 'O'r Stryd i'r Ddalfa'.** | **Yr Heddlu** |
| **PAB 238** | **Yr Heddlu i asesu pa gyfran o achosion troseddau rhyw sy'n hanesyddol, a sut mae hyn yn cymharu â data a riportiwyd i'r BAH yng Ngorffennaf 2014.** | **Yr Heddlu** |
| **PAB 239** | **Yr heddlu i roi copi i'r CHTh o'r Strategaeth Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant ranbarthol, Cynllun Gweithredu ac amserlenni.** | **Yr Heddlu** |
| **PAB 240** | **Yr heddlu i nodi nifer yr achosion y symudwyd yn eu blaenau heb gefnogaeth dioddefwyr, a dadansoddi rhesymau'r dioddefwyr dros dynnu eu cefnogaeth yn ôl.** | **Yr Heddlu** |
| **PAB 241** | **Yr Heddlu i feincnodi perfformiad Dyfed-Powys yn erbyn heddluoedd tebyg o ran yr amser a gymerir i weithredu canlyniadau i droseddau rhyw.** | **Yr Heddlu** |
| **PAB 242** | **Y CHTh i dderbyn adroddiadau wythnosol â chrynodebau dyddiol o:- Nifer y galwadau a gymerir gan CGH; yr amser a gymerir ar gyfartaledd i ateb galwadau; cyfran y galwadau ymateb syth a fynychir o fewn 20 munud.** | **Yr Heddlu** |
| **PAB 243** | **Yr heddlu i adrodd i BAH mis Hydref ar nifer y misoedd a gymerir i ddarparu troseddwyr traffig y ffyrdd â gwysion llys.** | **Yr Heddlu** |
| **PAB 244** | **Cyfarwyddwyr yr Heddlu i drafod gwybodaeth** | **Yr** |

| | | |
|---|---|---|
| | **rheoli sydd angen ar gyfer craffu.** | **Heddlu/SCHTh** |